# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mehefin 4ydd 2024 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Dewi Pritchard (cadeirydd), Maldwyn Jones, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gary Thomas, Alwyn Jones, a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 7fed 2024) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Archwilio Asedau – **adroddwyd fod cyflwr cyffredinol y llochesi bws yn iawn gyda man waith angen ei wneud yn Llanfor a Cefnddwysarn. Cytunwyd i ofyn i Sion Jones ei gwbwlhau.**
c) Adborth o gyfarfod Adfywio Ardal Ni.

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.
ii) Digwyddiadau arbennig gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro – Bala i Gwmtirmyanch, 6/6/24.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Recriwtio aelod newydd i Awdurdod y Parc.

c) Dŵr Cymru.
i) Gwahoddiad i'r safle i gael diweddariad am brosiect Llyn Celyn, ddydd Gwener, Mehefin 7fed. **Roedd Alwyn Jones, Eifion Davies a Bethan Thomas am fynychu.**

v) Ceisiadau Cynllunio
NP5/63/281 - Cais rhannol ôl-weithredol am do newydd gydag uchder bondo uwch yn y cefn gan greu lletyychwanegol ar lefel llawr cyntaf, tynnu 2 simnai ac ychwanegu 2 simnai newydd, gosod 4 ffenestr dormer a 4 ffenestr to, addasu/ychwanegu ffenestri a drysau, a thirlunio gan gynnwys creu llawr caled ar gyfer parcio a man troi. Gorseddau, Cwmtirmynach,

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.**

vi) Materion Ariannol
a) Praesept - £6,500
b) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol - **roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i un risg, sef diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein a cynghorwyd i chymryd camau priodol i'w lliniaru. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwnaegu Alwyn Jones i'r cyfrif banc arlein fel ei fod yn gallu awdurdodi taliadau mae'r clerc yn ei wneud. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.**

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu – Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd).**

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH GORFFENNAF 2il YN NEUADD MYNACH.